

CYFLEUSTERAU AWYR AGORED TYMOR YR HAF 2020
TELERAU AC AMODAU LLOGI AR GYFER CRICED

(I'w cadw er gwybodaeth ichi)

Cais: Rhaid i gais ymlaen llaw i logi unrhyw gyfleuster gael ei wneud mewn ysgrifen ar y ffurflenni rhagnodedig. Dylai ceisiadau gynnwys manylion am yr holl ddefnydd arfaethedig o'r cyfleuster ynghyd â rhestr o'r holl gemau sydd i'w chwarae yn ystod y tymor.

Argaeledd lleoliad: Bydd y wicedi ar gael ar gyfer gemau cynghrair o:
2 Mai 2020 tan 30 Awst 2020. Rhaid i'r **HOLL** gemau gael eu chwarae erbyn diwedd y cyfnod hwn ac ni fydd unrhyw eithriadau i'r dyddiadau hyn.

Dylai Clybiau wneud ceisiadau am estyniadau 14 diwrnod cyn diwedd y tymor.
Bydd unrhyw gais yn cael ei ystyried yn unigol ac ar sail teilyngdod gan yr Adran Parciau.

Bwcio gêm: Rhaid i'r holl gemau gael eu hawdurdodi gan y Cyngor hwn. Ni fydd y Llogwr, dan **unrhyw** amgylchiadau, yn mynd at y Parcmon yn uniongyrchol i gael defnyddio'r cyfleusterau. Ceidw'r Cyngor yr hawl i derfynu'r Cytundeb hwn neu ei atal dros dro os caiff yr amod hwn ei dorri mewn unrhyw ffordd.

Bydd unrhyw glybiau sy'n torri'r amod hwn yn cael eu hatal dros dro rhag defnyddio cyfleusterau'r Cyngor.

Yswiriant: Rhaid i gopïau o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus y Llogwr ynghyd â Ffurflen Ymwadiad y Cyngor wedi'i llofnodi sy'n amgaeedig, gael eu hanfon i'r Swyddfa Cyfleusterau Awyr Agored cyn dechrau'r tymor.

Diogelwch pethau gwerthfawr yn ystod gemau: Cyfrifoldeb y clwb cartref yw sicrhau bod pethau gwerthfawr y tîm yn ddiogel. Cynghorir clybiau i enwebu/penodi aelod o'r tîm i gasglu'r pethau gwerthfawr ac yna eu cloi mewn lle diogel. Dylai'r tîm cartref hefyd gynghori eu gwrthwynebwyr i wneud yr un peth.

Trwydded Bar: Dylai'r holl glybiau anfon copi cyfredol o'u Trwydded Bar Cyhoeddus a'u Trwydded Adloniant Cyhoeddus (os yw'n gymwys), a ddylai gynnwys enw, cyfeiriad a rhif ffôn y Trwyddedai (lle bo'n gymwys).

Gwaharddiad ar Smygu: Ni chaniateir smygu mewn neu yn union gyfagos i unrhyw adeiladau neu fangreoedd a gaiff eu llogi o dan y Cytundeb hwn gan unrhyw chwaraewr, swyddog neu wylwr.
Cyfrifoldeb y llogwr yw gorfodi'r ddarpariaeth hon.

Taliadau: Rhaid i'r Cyngor gael taliad cyn i'r cyfleuster hwn gael ei ddefnyddio. Gellir talu ag arian parod neu siec, y dylid ei gwneud yn daladwy i CBSC.

Canslo:

(1) **Gan y Llogwr:**

- Cyn y gemau – Os yw'r clwb yn hysbysu swyddfa'r Gwasanaethau Parciau ar 01443 811452 cyn gêm, ni chaiff y ffi am y Wiced ei had-dalu ond os nad yw'r wiced wedi cael ei pharatoi eisoes.
- Ar ôl gemau – Os nad yw'r clwb yn hysbysu swyddfa'r Gwasanaethau Parciau ar 01443 811452 bod y gêm wedi'i chanslo oherwydd y tywydd erbyn y diwrnod gwaith nesaf caiff ffi'r gêm ei fforffedu.

- (2) **Gan y Cyngor:** Ceidw'r Cyngor yr hawl i ganslo unrhyw gêm, a all fod yn ddarostyngedig i'r Cytundeb hwn, pe bai angen y cyfleuster ar gyfer digwyddiad arbennig.

Rhoddir cymaint o rybudd ag sy'n bosibl i Glybiau mewn achosion o'r fath. Ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw golled sy'n deillio o'r fath achos o ganslo.

Ffioedd: Caiff ffioedd eu pennu gan y Cyngor ar 1 Ebrill bob blwyddyn.
Mae'r ffioedd yn cynnwys defnyddio:

- 2 Set o Ystafelloedd Newid / Cawodydd (lle bônt ar gael)
- Ystafell de (lle bo ar gael)
- Arwyneb Chwarae
- Ystafell dyfarnwr (lle bo'n gymwys)

Defnydd o'r pafiliwn:(1) Rhaid i'r Llogwr ddefnyddio'r cyfleuster a gaiff ei logi at ddibenion chwarae criced a hyfforddiant lle cytunir ar hynny gyda'r Cyngor ac nid at unrhyw ddiben arall o gwbl.

- (2) Bydd y Cyngor yn sicrhau bod mynediad i'r ystafelloedd newid sydd i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r gêm ar gael i'r Llogwr rhwng **1.00 p.m. ac 8.00 p.m.** Ar nosweithiau pan chwarae'r gemau, caiff yr amserau eu hymestyn i 8:30 p.m., **ond dim hwyrach.**
- (3) Rhaid i glybiau sy'n cyflenwi ac yn defnyddio eu hoffer trydanol eu hunain sicrhau y cânt Brawf Dyfeisiadau Cludadwy gan berson cymwysedig a'u labelu a'u cofrestru bob blwyddyn. Rhaid i'r Clwb ariannu'r gwariant hwn ei hun.
- (4) Rhaid i unrhyw berson(au) sy'n paratoi bwyd yn y pafiliynau neu'r ystafelloedd newid (ar ran y Clwb) gyflwyno Cais am Gofrestru Sefydliad Busnes Bwyd. Mae'r ffurflen hon ar gael oddi wrth adran Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod ar 01443 866544. Rhaid dychwelyd y ffurflen 28 diwrnod cyn dechrau darparu bwyd. Rhaid i'r person(au) hefyd lanhau arwynebau'r gegin cyn ac ar ôl eu defnyddio. Nid yw'r cyngor yn cymeradwyo nac yn annog defnyddio ei bafiliynau/ystafelloedd newid i baratoi bwyd.
- (5) Cyfrifoldeb y Clwb yw gwaredu unrhyw sbwriel/gwastraff bwyd/diod mae'n ei gynhyrchu o unrhyw luniaeth mae'n ei ddarparu i'r timau cartref/ oddi cartref.

Os oes arnoch angen arweiniad ar faterion Bwyd a Hylendid, dylech gysylltu ag adran Iechyd yr Amgylchedd ar 01495 235242. Os ydych eisiau i'r Cyngor waredu sbwriel neu wastraff, dylech gysylltu â'r adran Rheoli Gwastraff ar 01443 873704. Codir ffi am y gwasanaethau hyn.

Storio Offer:

(1) Gyda chytundeb y Swyddog Awdurdodedig, dim ond offer a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r cyfleuster y bydd y Llogwr yn eu storio. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a allai ddigwydd i'r offer wedyn. Os rhoddir caniatâd, rhaid i'r offer gael eu hyswrio gan y Clwb ar wahân rhag unrhyw ddifrod neu golled.

(2) Bydd rhaid i Logwr sy'n defnyddio'r un lleoliad yn rheolaidd bob tymor geisio caniatâd gan y Swyddog Awdurdodedig, mewn ysgrifen a phob blwyddyn, i barhau i storio offer a ddefnyddir mewn perthynas â'i logi. Bydd y Clwb yn darparu rhestr i'r Cyngor o'r holl offer sy'n cael eu storio yn yr adeilad.

- (3) Os caiff y Cyngor ei hysbysu am unrhyw achos o storio offer yn y pafiliynau heb awdurdod, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn rhoi 5 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i'r Llogwr i fynd â'r cyfryw eitemau i ffwrdd. Gall peidio â gwneud hynny olygu y bydd y Cyngor yn mynd â'r offer i ffwrdd. Caiff unrhyw gostau eu trosglwyddo i'r Llogwr. Pan gaiff y costau eu talu'n llawn, bydd y Llogwr yn gallu cael y cyfryw offer yn ôl.
- (4) Cynhelir asesiadau perygl tân ar holl safleoedd y Cyngor o dro i dro. O ganlyniad, gellid gofyn i glybiau fynd ag eitemau i ffwrdd neu eu storio mewn ffordd wahanol / man gwahanol.

Defnydd o'r maes:

- (1) Y Llogwr sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff y mynediad i ac o'r cyfleuster ei gadw'n glir o gerbydau modur. **Gallai** peidio â gwneud hyn arwain at dynnu'n ôl y defnydd o'r cyfleuster.
- (2) Ni cheir parcio na gyrru unrhyw gerbydau modur y tu allan i unrhyw faes parcio cymeradwy. Caiff unrhyw gostau i'r Cyngor oherwydd unrhyw ddifrod a achosir wrth i gerbyd modur gael ei barcio neu ei yrru ar draws yr arwyneb chwarae eu hadennill oddi ar y Llogwr.
- (3) Y Cyngor fydd yn penderfynu a fydd gêm ragdrefnedig yn cael ei gohirio oherwydd tywydd gwael. Mae penderfyniad y Cyngor yn derfynol yn hyn o beth. Os yw'r Llogwr yn defnyddio cyfleuster pan fo'r Cyngor wedi canslo, ac yn achosi difrod i'r arwyneb chwarae o ganlyniad, y Llogwr fydd yn atebol am yr **holl** gostau a achosir er mwyn adfer y cyfleuster i gyflwr chwaraeadwy. O dan y fath amgylchiadau, bydd gan y Cyngor yr hawl i derfynu'r Cytundeb hwn neu i gymryd unrhyw gamau eraill y mae'n barnu eu bod yn addas, ar unwaith.
- (4) Bydd y Clwb yn indemnio'r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw ddifrod a achosir ac unrhyw weithredoedd, camau cyfreithiol, costau, hawliadau neu dreuliau i bersonau neu eiddo sy'n deillio o'r hurio a chaiff y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, ei gwneud yn ofynnol i'r Clwb drefnu sicrwydd yswiriant mewn perthynas â hyn a chyflwyno tystiolaeth i'r Cyngor o sicrwydd yswiriant digonol.
- (5) Nid yw'r Cyngor, ei weision na'i asiantau yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw anaf, colled neu niwed i bersonau neu eiddo, sut bynnag y'i hachosir, sy'n deillio o hurio'r cyfleuster hwn.
- (6) Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau y caiff yr holl ofynion o ran y safle a'r gemau eu bodloni, os bydd gwrthdaro'n digwydd am unrhyw reswm ac na ellir ei ddatrys trwy drafod, ceidw'r Cyngor yr hawl i wneud pa benderfyniad bynnag y mae'n barnu bod ei angen.

DYLECH LOFNODI'R FFURFLEN TELERAU AC AMODAU LLOGI AR ÔL Y DUDALEN NESAF A'I DYCHWELYD I'R ADRAN CYFLEUSTERAU AWYR AGORED ER MWYN COFRESTRU'CH CLWB AR GYFER DYRANNU SAFLE CHWARAE IDDO.

Hysbysiad Preifatrwydd Cryno

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch ar eich cais at ddibenion gweinyddu'ch cais. Os ydym yn ymrwmo i gontract gyda chi ar gyfer y gwasanaethau a geisir, caiff y wybodaeth a roddwch ei defnyddio at ddibenion gweinyddu'r gwasanaethau hynny e.e. byddwn yn defnyddio'ch manylion cyswllt i anfon hysbysiadau testun neu e-bost fel cadarnhad o'r bwciadau.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth gan gynnwys yr hawl i weld y wybodaeth a gadwn amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anfodlon ar y ffordd mae'ch gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut yr ydym yn prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r dudalen we ganlynol:

<http://www.caerphilly.gov.uk/PrivacyNoticeParks.aspx>

TELERAU AC AMODAU CYFLEUSTERAU AWYR AGORED

CYTUNDEB LLOGI AR GYFER CLYBIAU CHWARAEON – TYMOR YR HAF 2020

I'w lofnodi a'i ddychwelyd i'r adran Cyfleusterau Awyr Agored cyn dechrau'r tymor.

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y Telerau ac Amodau a nodir ac yn eu derbyn fel amodau ar gyfer llogi cyfleusterau criced oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Enw'r Clwb:

Eich enw:
(Printiwch eich enw)

Cyfeiriad:
.....

Llofnodwyd:

Dyddiedig: / /

Rhifau ffôn ar gyfer:-

Enw Cadeirydd y Clwb: Rhif ffôn:

Enw Ysgrifennydd y Clwb: Rhif ffôn:

Ydych chi wedi amgáu?

1. Copïau o'ch Yswiriant Atebolwydd Cyhoeddus (Ile bo'n gymwys).
2. Copïau o unrhyw dystysgrifau Bwyd a Hylendid (Ile bo'n gymwys).
3. Copïau o'ch Trwydded Bar Cyhoeddus / Trwydded Adloniant Cyhoeddus ac enw a chyfeiriad y Trwyddedai (Ile bo'n gymwys).
4. Ffurflen Ymwadiad y Cyngor wedi'i llofnodi.
5. Rhestr lawn o gemau'r tymor.

Dylech gadw tudalennau 1 i 3 o'r Telerau ac Amodau er gwybodaeth ichi a dychwelyd tudalennau 4 a 5 wedi'u llofnodi yn yr amlen a ddarparwyd.

Ffoniwch y Gwasanaethau Parciau ar 01443 811452 gydag ymholiadau.

YMWADIAD CYFLEUSTERAU AWYR AGORED

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb am Golled, Lladrad neu Ddifrod i Eiddo neu Anaf i Bersonau wrth ddefnyddio ein cyfleusterau. Mae unrhyw bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn yn gwneud hynny ar eu menter eu hunain. Dylid hysbysu'r Swyddog Awdurdodedig ar unwaith am unrhyw beryglon neu offer wedi torri yr ydych yn sylwi arnynt.

Enw'r Clwb:.....

Safle a ddefnyddir:.....

Rwyf yn derbyn y datganiad uchod yn llwyr:

Llofnodwyd:
(Llofnodwr awdurdodedig dros ac ar ran y Clwb/Sefydliad)

Enw:
(Printiwch eich enw)

Teitl:

Dyddiad:

Manylion cyswllt

Cartref:

Symudol:.....

Cyfeiriad e-bost:

Y dull cysylltu sydd orau gennych:.....